"Mae wedi bod wledd go iawn rhannu brwdfrydedd y plant. Mae pŵer ychydig yn mynd yn bell, ac mae'r plant eisiau i'w rhieni i weld drostynt eu hunain y gwaith gwych y maent wedi bod yn ei wneud."

Nofio ar y don – Clwb CREST peilot

Ysgol Gynradd Landsdowne

Caerdydd

Cyflwyniad

Mae Ysgol Gynradd Lansdowne wedi'i lleoli ychydig filltiroedd i'r gorllewin o ganol dinas Caerdydd. Mae yn yn gwasanaethu ardaloedd Treganna, Lecwydd a Pharc Fictoria yn benaf. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg, a dysgir y Gymraeg fel ail iaith.

Crynodeb byr

Mae Cynllyun CREST Seren yn gynllun gwobrwyo ar draws y DU sy'n galluogi plant, 5-11 oed fel arfer, i ddatrys problemau mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg,(STEM) drwy ymchwiliad ymarferol.

Mae'r gweithgareddau yn canolbwyntio ar gymysgedd o waith ymarferol a thrafodaeth, gan annog plant i weithio'n annibynnol o oedolion. Mae'r ymchwiliadau sydd yn para oddeutu awr, yn ymchwiliadau wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio mewn clwb, mewn gwersi, neu y tu allan i'r ysgol.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Datrys, problem sy'n seiliedig ar wyddoniaeth berthnasol, gosod o fewn cyd-destun.

Gweithio mewn parau neu grwpiau bach, yn annibynnol o oedolion.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol gwyddoniaeth.

Meddwl a siarad am wyddoniaeth.

Rhannu syniadau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

Ffeithiau cyflym ar gyfer athrawon

Beth yw Clwb STEM?

Er eu bod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm, nid ydynt yn cael eu cynllunio i fod am ysgrifennu, profion neu arholiadau. Gall gweithgareddau gynnwys arbrofion ymarferol, ymchwiliadau, trafod a myfyrio. Yn bennaf oll, dylent fod yn hwyl.

Maent yn gallu ysgogi a meithrin hyder mewn pobl ifanc sy'n cael trafferth gyda phynciau STEM, ac yn darparu ffordd ychwanegol ar gyfer plant sydd eisoes yn dangos dawn a gyda diddordeb mewn ymestyn eu dysgu.

Nod Clybiau STEM yw:

- cyfoethogi, gwella ac ymestyn y cwricwlwm yr ysgol uwchradd
- gwella cyrhaeddiad mewn, rhyngweithio â, a phrofiadau, pynciau STEM ymhlith disgyblion
- gwella cydweithio rhwng ysgolion a hefyd rhwng ysgolion a diwydiant
- annog disgyblion i barhau eu haddysg mewn STEM y tu hwnt i TGAU a lefel Diploma (neu gymhwyster cyfatebol).

"Mae'r adborth gan rieni yn gadarnhaol iawn, ac yn gyfle gwych i ymgorffori yn y plant y cysyniadau y maent wedi bod yn ymchwilio trwy CREST."

Beth yw Llysgenhadon STEM?
Mae Llysgenhadon STEM yn wirfoddolwyr o bob oed ac o bob cefndir sy'n gweithio mewn swyddi sy'n gysylltiedig â STEM o brentisiaid i ddaearegwyr a ffisegwyr niwclear i swolegwyr.

A ydynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant i weithio mewn ysgolion?
Mae pob Llysgenhadon STEM yn cael eu cofrestru ac wedi cael eu gwirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, ac maent wedi derbyn cyflwyniad i weithio yn yr ystafell ddosbarth.

Beth maen nhw'n ei wneud?
Mae Llysgenhadon STEM yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau megis sgyrsiau gyrfaoedd, mentora, helpu gyda digwyddiadau ysgol neu glybiau a hwyluso ymweliadau â'r gweithle. Mae gweithgareddau yn y gorffennol wedi cynnwys:adeiladu rocedi, teithiau fferm, cyfweliadau am swyddi ffug, dyrannu llygod mawr a sgwrsio cyflym!

Faint mae STEMNET yn ei gostio?
Dim byd o gwbl.

Swnio'n wych – sut y gallaf drefnu ymweliad gan Lysgennad STEM?
Yn syml, ewch i www.stemnet.org.uk i ddod o hyd i'ch cyswllt lleol.

Ysbrydoli pobl ifanc mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)

Dod yn Llysgennad STEM:
Am ragor o wybodaeth ewch i: www.stemnet.org.uk

STEMNET
2il Lawr, Tŷ Weston
246 High Holborn
Llundain WC1V 7EX

T 020 3206 0450
E info@stemnet.org.uk

Manylion am weithgaredd Clwb

Yn newydd i addysgu mewn ysgol newydd, gyda rôl newydd fel Cydlynydd Gwyddoniaeth, yr unig ddewis yw manteisio ar unrhyw gyfle a roddir.

Yn awyddus i wneud argraff dda ac yn rhannu fy nghariad o wyddoniaeth, 'rwyf yn edrych ymlaen at ddechrau Clwb Gwyddoniaeth. Pan glywais am y Gwobrau CREST mewn cyfarfod ar gyfer Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg yn ôl ym mis Hydref 'roedd yn haeddu ymchwiliad pellach.

Mae'n system gynhwysfawr gyflawn gyda syniadau, cynlluniau gwers a sticeri i gychwyn yn swnio'n rhy dda i fod yn wir. Gyda dosbarth llawn o blant eisoes yn frwdfrydig ac egwyl ginio awr ar ddydd Mawrth, rydym yn dechrau ein Clwb CREST o ddifrif.

Mae y syniad tu ôl CREST yn syml, ac mae y gwersi yn hynod atyniadol a hygyrch gyda photensial i amrwio yn ol yr angen. Roedd y plant wrth eu bodd gyda'r syniad eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar wyddoniaeth ymarferol, ac maent yn wir yn mwynhau aros mewn yn ystold egwyl ginio i "wneud teganau a chwarae gemau" fel mae rhai o'r plant wedi dweud.

Nid wyf yn un i golli cyfle felly mae llawer o holi a sgaffaldiau yn digwydd yn ystod ein sesiynau er mwyn gwneud y gorau o'r cyfle i ddysgu, ac mae'r iPad bob amser allan er mwyn tynnu lluniau a creu fideos. Gyda chymorth Comic Life o'r storfa App a ryw chwarter awr, mae'r plant yn creu comics am eu sesiynau CREST wedyn a'i cyhoeddi ar wefan yr ysgol, rhannu gyda'r dosbarth, neu eu harddangos yn yr ysgol ac mewn cyflwyniadau.

Mae ein Clwb CREST wedi bod yn ffordd wych o sicrhau fod y plant yn llawn cyffro ac yn frwdfrydig am wyddoniaeth yn yr ysgol ac yn manteisio ar eu hochr greadigol ynghyd â'u medrau datrys problemau. Mae'r sesiynau bob amser yn meithrin sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm, ac mae'n wych eu clywed yn rhannu eu profiadau gyda'r dosbarth ar ôl cinio am yr hyn y maent wedi bod yn ddysgu. Mae eu sgiliau rhesymu a geirfa gwyddonol wedi datblygu acwedi creu argraff ar staff ac ymwelwyr i'r ysgol.

Manteision ac effaith ar y myfyrwyr

Y prif fantais yw rhannu brwdfrydedd y plant. Mae pŵer ychydig yn mynd yn bell, ac mae'r plant eisiau i'w rhieni i weld drostynt eu hunain y gwaith gwych y maent wedi bod yn ei wneud. Felly, ar eu cais, cynhaliwyd noson agored i rieni i ddod i mewn a dysgu cyfres o

wersi CREST. Y canlyniad oedd rhywfaint o gydweithio gwych a llawer o lanast ar ôl hynny, ynghŷd â rhai pecynnau gwag o Haribo … oherwydd nid yw gwyddoniaeth yn digwydd ar stumog wag ar nos Fercher ar ôl ysgol!

Mae'r adborth gan rieni yn gadarnhaol iawn, ac yn gyfle gwych i ymgorffori yn y plant y cysyniadau eu bod wedi bod yn ymchwilio trwy CREST. Mae'r comics, ynghŷd â gwasanaethau a nosweithiau agored, yn ymgysylltu yn dda iawn gyda'r llinynnau llafaredd yn ein targedau llythrennedd; addasu eu siarad i bwrpas, yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau.

Y cam nesaf yw cael mwy o blant i gymeryd rhan ar draws yr ysgol, a chael mwy o Lysgenhadon STEM i ymweld â ni yn y dosbarth.